Ysgol Talysarn
Newyddlen 9.2.18

Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen Celebrating Santes Dwynwen

Dathlwyd Ddiwrnod Santes Dwynwen yn yr ysgol ar Ionawr 25ain. Cafodd y plant wisgo i fyny mewn dillad coch, pinc a chalonnau i ddathlu diwrnod Santes Cariadon Cymru a gwneud tasgau amrywiol yn ystod y dydd. Cafodd y disgyblion gyfle i brynu cacennau yn Siop Gacennau Dwynwen ar y diwrnod a chael cinio cariadus. Diolch enfawr i Anti Mandy ac Anti Ellen am eu holl waith caled yn coginio pryd cariadus i blant yr ysgol ac i'r holl blant a rhieni am eu rhoddion tuag at y sdondin gacennau. Llwyddwyd i gasglu £61.20 tuag at yr Ambiwlans Awyr.

On January 25th we celebrated Santes Dwynwen .The children dressed up in red, pinckand heart clothing and they also did many activities to celebrate our Wales's Saint of Love. The children had the chance to buy cakes from Dwynwen's Cake Shop and had a loving dinner. A big thank you to Aunty Mandy and Aunty Ellen for their hard work and to all the pupils and parents that contributed cakes. We raised £61.20 for the Air Ambulance.

Gweithdy cerdd/ Music workshop

Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn brysur yn cymeryd rhan mewn prosiect cerdd gan weithio ar y cyd gyda Ysgol Bro Lleu a'r Brifysgol ym Mangor. Cawsant gyfle i berfformio eu perfformiad yn Pontio ym Mangor .Roedd yn brofiad gwych iddynt.

Year 5 and 6 have been busy taking part in a Music project working with Ysgol Bro Lleu and the University in Bangor. They had the opportunity to perform their performance in Pontio in Bangor .It was a great opportunity for them.

Nia Coleg y Bala/ Nia Bala College

Diolch enfawr i Nia o Goleg y Bala am ddod draw i roi gwasanaeth arbennig i holl ddisgyblion yr ysgol ar Ionawr 24ain. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr!

A big thank you to Nia from Bala College for a special assembly on January 24th. The children thoroughly enjoyed it!

Prosiectau Gwaith Cartref
Homework Projects

Roedd plant Blwyddyn 1,2, 3 a 4 wedi cael yr her o greu prosiectau yn ymwneud gyda themau y dosbarth y tymor hyn. Cafwyd waith gwych am Y Gofod gan blant Bl 3 a 4 yn ogystal â gwaith penigamp am Bengwiniaid gan Bl 1 a 2. Da iawn i bawb am greu campweithiau!

Year 1,2,3 and 4 were recently challenged to create projects that related to their classroom themes. We received great work about Space by Year 3 and 4 and excellent work on Penguins by Year 1 and 2. Good job for creating fantastic work everyone!

Ser yr wythnosau diwethaf...
Our star pupils during the last few weeks...

Jackob-Ali, Liam, Sol, Medi, Leo, Demie, Kristian, Kayla, Casey R, Owi, Michael, Kaitlyn

Diwrnod e-ddiogelwch/E-safety Day

Dathlwyd diwrnod e-ddiogelwch yn yr ysgol ar Chwefror y 6ed. Cafodd y plant gyflwyniad i bwysigrwydd cadw yn ddiogel ar-lein a bu'r plant yn brysur yn creu posteri i annog diogelwch ar y wê.

On February 6th we celebrated E-Safety Day. During the day the children had an introduction to the importance of keeping safe on-line and they created posters to encourage internet safety.

Rhif Lwcus/Lucky number:
12/1/2018— Owi
19/1/2018- Gwyn
26/1/2018—Shereen
2/2/2018—Ava Arthan
9/2/2018— Mrs G Evans

Diolch i bawb am eich cefnogaeth.
Thank you for all your support.

Presenoldeb/Attendance:
Dosbarth Meithrin,Derbyn : 97.2%
Blwyddyn 1 a 2: 92.9%
Blwyddyn 3 a 4: 92.1%
Blwyddyn 5 a 6: 92.0%

Yr Urdd/ Urdd

Mae aelodau yr Urdd wedi bod yn brysur yn dechrau paratoi gwaith celf ar gyfer cystadleuathau Celf a Chrefft yr Urdd fydd yn cael ei gynnal cyn hir. Pob lwc i'r holl ymgeiswyr!

The Urdd members have been busy starting to prepare for the annual Arts and Crafts competition that will be held in the coming weeks. Good luck to all the members!

Kerb Kraft

Mae Blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn brysur yn cymeryd rhan mewn prosiect cadw'n ddiogel ar y ffordd. Maent wedi bod yn teithio o amgylch y pentref gan gofio rheolau'r ffordd.

Year 1 and 2 have been busy taking part in a road safety project called Kerb Kraft. They have been walking around the village safely remembering the road safety rules.

Dyddiadau Pwysig/Diary Dates

Tymor yn cychwyn yn ôl 20/2/18
New term begins 20/02/18

Hyfforddiant Mewn Swydd/In service training Day - 19/2/18
Dim ysgol i'r plant/ No School for the children

PC Owen / PC Owen

Daeth PC Owen draw i roi gweithdai i holl ddisgyblion yr ysgol yn ddiweddar. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr!

PC Owen came to school recently to give workshops to all the pupils . The children enjoyed it thoroughly it !

Mwynhewch y gwyliau!
Enjoy the holidays!